

# Y Gwobrau <sup>2020</sup> The Accolades

## Pecyn gwybodaeth

Mae'r Gwobrau'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu gwaith rhagorol gan sefydliadau, grwpiau neu dimau gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Os ydych chi'n gweithio mewn unrhyw ffurf ar ofal a chymorth yn y sector cyhoeddus, annibynnol, cydweithredol neu wirfoddol, hwn yw eich cyfle i rannu eich cyflawniadau gyda chydweithwyr ledled Cymru.

Ar gyfer Gwobrau 2020, rydym yn edrych ar brosiectau sy'n:

- cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu wasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- cefnogi datblygiad staff
- helpu i wella gwasanaethau
- cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis iaith.

Darllenwch ymlaen er mwyn canfod pa un o'r pum categori y gallech chi fod yn gymwys i ymgeisio ynddo.

## Cynnwys

Beth yw'r Gwobrau?.....	3
Pwy all ymgeisio?.....	4
Pam y dylai fy nhîm/grŵp/sefydliad ymgeisio?.....	4
Sut mae gwneud cais?.....	5
Sut y bydd y Gwobrau'n cael eu beirniadu?.....	5
Dyddiadau pwysig.....	5
Categoriâu.....	6
Rheolau ymgeisio.....	7
Cyhoedduswydd.....	7
Beirniadu.....	8
Y seremoni a'r gwobrwyo.....	8

## Beth yw'r Gwobrau?

Mae'r Gwobrau yn ddyfarniadau sy'n cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu ymarfer rhagorol mewn gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant ledled Cymru.

Yn 2020, bydd y Gwobrau'n cael eu dyfarnu i dimau, grwpiau neu sefydliadau sy'n:

- cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- cefnogi datblygiad staff
- helpu i wella gwasanaethau
- cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a dewis iaith.

Mae gennym hefyd dair thema drosfwaol a dylai unrhyw brosiectau sy'n ymgeisio am y Gwobrau roi gwybod i ni a yw eu prosiect yn cefnogi'r themâu hyn (a sut).

- diogelu
- gweithio gyda phobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- defnyddio technoleg ddigidol.

Disgwylir i'r holl brosiectau sy'n ymgeisio am y Gwobrau gyrraedd y safonau ymddygiad ac ymarfer gofynnol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol fel y nodir yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côd)*.

Bydd y beirniaid yn defnyddio'r Côd fel meincnod wrth sgorio, felly mae'n rhaid i'r prosiectau sicrhau bod eu staff yn gwybod ac yn ymarfer yr ymddygiad y mae cyflogwyr, cydweithwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, gofalgwyr a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl ganddynt.

Gallwch lawrlwythor'r Côd yn:

[gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/cod-ymarfer-proffesiynol-gofal-cymdeithasol](http://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/cod-ymarfer-proffesiynol-gofal-cymdeithasol)



## Pwy all ymgeisio?

Mae'r Gwobrau'n agored i unrhyw dîm, grŵp neu sefydliad sy'n darparu gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Rydym yn chwilio am geisiadau o bob maes – o'r sectorau gwirfoddol, preifat, cydweithredol neu statudol. Gallwch fod yn ddarparwyr gofal preswyl neu gymunedol, yn fawr neu'n fach. Gallwch fod yn gweithio gyda phlant, oedolion neu ofalwyr.

Weithiau nid yw pobl yn sylweddoli'r fath argraff a wneir gan eu gwaith, felly os ydych chi'n gwybod am brosiect sy'n gymwys, rhowch y wybodaeth hon iddynt a'u hannog i ymgeisio.

## Pam ddylai fy nhîm/grŵp/sefydliad ymgeisio?

Mae'r Gwobrau'n gyfle i arddangos eich cyflawniadau a rhannu ymarfer gorau a'r hyn yr ydych wedi ei ddysgu gydag eraill.

Mae'r gofal a'r cymorth yr ydych yn ei darparu hefyd yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o ofal cymdeithasol, a blynyddoedd cynnar a gofal plant, i'r cyhoedd.

Mae llawer o fanteision i ymgeisio am un o'r Gwobrau.

### Ar gyfer eich tîm/grŵp/sefydliad:

- cydnabyddiaeth o'ch cyflawniadau
- dangos a rhannu ymarfer da
- cynyddu morâl y staff a'u hymdeimlad o falchder
- cynyddu hyder ac ymdeimlad o falchder y rhai yr ydych yn rhoi gofal a chymorth iddynt.

### Ar gyfer y sector:

- dysgu o syniadau newydd a'u rhannu
- canfod dulliau a phrosesau effeithiol er mwyn gwella
- cydnabod prosiectau, cyflawniadau ac ymarfer da
- dangos yr effaith gadarnhaol ar fywydau pobl
- bod yn ystyriol o gydraddoldeb, amrywiaeth a dewis ieithyddol wrth fodloni anghenion pobl
- cefnogi datblygiad staff
- annog gwelliant yn y gwasanaeth
- gwella'r ddelwedd o ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

## Sut mae gwneud cais?

1. Mae dwy ffordd o wneud cais eleni – drwy llenwi ffurflen gais ysgrifenedig neu gynhyrchu fideo byr (gall y fideo fod yn un syml, ac ni fydd yn cael ei feirniadu ar ei rinweddau technegol, dim ond y wybodaeth a ddarperir). Cewch lawrlwytho'r ffurflenni cais ar gyfer y ddau ddull oddi ar ein gwefan yn [gofalcymdeithasol.cymru/gwobrau2020](http://gofalcymdeithasol.cymru/gwobrau2020)
2. Nodwch yn glir pa gategori yr ydych yn ymgeisio ynddo – dim ond un categori i bob ffurflen gais. Os hoffech chi ymgeisio mewn dau neu fwy o gategoriâu, mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen gais ar wahân ar gyfer bob un.
3. Atebwch bob cwestiwn.
4. Peidiwch â mynd dros y cyfyngiad geiriau.
5. Darllenwch y canllawiau cyn llenwi eich ffurflen gais neu wneud eich fideo. Defnyddiwch dystiolaeth o'ch gwaith i egluro eich atebion a darparwch gymaint o dystiolaeth gan gynifer o wahanol bobl a sefydliadau sy'n ymwneud â'ch prosiect â phosibl. Dylai hyn gynnwys pobl a gefnogir gan eich prosiect a gofalwyr, pan fo hynny'n bosibl.
6. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ac yn deall rheolau'r Gwobrau.
7. Llenwch eich cais a'i anfon yn ôl i ni erbyn **5pm, 15 Tachwedd 2019**.

Mae gan y beirniaid hawl i symud eich cais i gategori gwahanol os teimlir fod hynny'n briodol. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw ddeunyddiau ar wahân i'r ffurflen gais neu fideo.

Gweler y rheolau a'r amodau ar dudalen 7 i gael mwy o wybodaeth.

## Sut bydd y Gwobrau'n cael eu beirniadu?

Mae panel y beirniaid yn cynnwys aelodau Bwrdd a staff Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ogystal â phobl sydd â phrofiad o ofal a chymorth, gofalwyr a chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau yr ydym yn cydweithio'n agos â hwy.

Bydd y beirniadu'n digwydd mewn dwy ran. Bydd y beirniaid yn cytuno ar restr fer o'r ceisiadau sy'n sgorio uchaf, byddant wedyn yn ymweld â phob prosiect ar y rhestr fer cyn penderfynu pwy sy'n cyrraedd y rownd derfynol ym mhob categori.

## Dyddiadau pwysig

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	5pm, 15 Tachwedd 2019 – noder os gwelwch yn dda, ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl y dyddiad cau
Hysbysiad o'r ceisiadau ar y rhestr fer	16 Rhagfyr 2019
Ymweliadau'r beirniaid at y prosiectau ar y rhestr fer	Rhwng 20 Ionawr a 7 Chwefror 2020
Cyhoeddi pwy sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol	17 February 2020
Seremoni wobrwyo brynhawn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd	23 Ebrill 2020

## Categoriâu

Mae pum categori gwobrwyo.

Ar gyfer diben eglurhaol y darperir yr enghreifftiau o bob categori isod, ni ddylent gyfyngu ar eich cais.

Bydd y beirniaid yn chwilio am dystiolaeth bod eich cais yn berthnasol i'r categori yr ydych yn ymgeisio ynddo.

### Y categorïau

#### 1. Adeiladu dyfodol disglair gyda phlant a theuluoedd

- Dathlu prosiectau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw

#### 2. Datblygu ac ysbrydoli gweithlu yfory

- Dathlu prosiectau sy'n defnyddio dulliau effeithiol, creadigol ac arloesol o ddatblygu'r gweithlu er mwyn bodloni galw a disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol
- Gall y dulliau ymwneud â dysgu, datblygiad a/neu gymwysterau

#### 3. Gwella gofal a chymorth yn y cartref gyda'n gilydd

- Dathlu budd gweithio gyda'n gilydd i gefnogi llesiant pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

#### 4. Ffyrdd arloesol ac ysbrydoledig o weithio

- Dathlu prosiectau sy'n rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio i gefnogi'r bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol neu wasanaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant

#### 5. Gwranddo i a gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia

- Dathlu prosiectau sy'n rhoi pobl sy'n byw gyda dementia wrth galon eu gwaith fel y gall y rhai sy'n byw gyda dementia cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

## Rheolau'r Gwobrau

- Nid oes tâl am ymgeisio
- Mae'r Gwobrau'n agored i dimau, grwpiau neu sefydliadau o'r sectorau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru
- Rhaid i'ch tîm, grŵp neu sefydliad fod wedi ei leoli yng Nghymru
- Rhaid i chi ateb bob cwestiwn ar y ffurflen gais/yn y fideo
- Dylech gyfeirio at y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#) yn eich cais a bod yn ymwybodol o'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr gofal cymdeithasol
- Rhaid i rywfaifaint o'r gwaith sy'n rhan o'ch cais fod wedi digwydd ers Ebrill 2017
- Dim ond gwybodaeth a gynhwysir ar y ffurflen gais neu yn y fideo a ystyrir gan y beirniaid
- Rhaid i chi gadw o fewn y cyfyngiadau geiriau neu amser a ddarperir – ni fyddwn yn ystyried unrhyw geisiadau sy'n mynd dros y cyfyngiadau geiriau neu amser
- Ni ystyrir unrhyw ddeunyddiau ychwanegol gan y beirniaid
- Rhaid i chi ddarparu manylion cyswllt llawn un aelod o'ch tîm, grŵp neu sefydliad
- Ni dderbynnir unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad neu'r amser cau
- Ni fyddwn yn anfon cadarnhad i chi o dderbyn eich cais
- Ni fydd modd dychwelyd eich cais i chi.

Rhaid i chi gyflwyno eich cais erbyn **5pm dydd Gwener, 15 Tachwedd 2019**.

## Cyhoeddusrwydd

- Rhaid i'ch tîm, grŵp neu sefydliad gytuno i'r wybodaeth a ddarperir ar eich ffurflen gais neu yn eich fideo gael ei defnyddio i ddibenion hyrwyddo a hysbysebu'r Gwobrau, ac i rannu ymarfer nodedig ac i helpu eraill yn y sectorau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant gael dysgu
- Byddwn yn gwneud ffilm fer o'r prosiectau sy'n cyrraedd y rownd derfynol, a fydd yn cael ei dangos yn y seremoni wobrwyo. Mae'n debygol y bydd y ffilmio'n digwydd ym mis Mawrth 2020 a bydd disgwyl i'r prosiectau i gyd sicrhau bod y bobl berthnasol ar gael ar gyfer y ffilmio. Bydd y prosiectau'n cael mwy o wybodaeth a syniad o ddyddiad y ffilmio pan gyhoeddir pwy sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol
- Gallai bob un o'r prosiectau sy'n cyrraedd y rownd derfynol gael cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru.

## Beirniadu

- Bydd y prosiectau sy'n cyrraedd y rownd derfynol a'r enillwyr yn cael eu dewis gan y panel o feirniaid
- Rhaid i aelodau'r panel beidio bod ag unrhyw gysylltiad â'r prosiectau a gofrestrir ar gyfer y Gwobrau
- Ni all trefnwyr a beirniaid y Gwobrau ohebu â'r ymgeiswyr ynglŷn â'r broses feirniadu
- Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni chychwynnir gohebiaeth ynglŷn â'r penderfyniad
- Rhaid i'r prosiectau sydd ar y rhestr fer gael ymweliad gan y beirniaid rhwng 20 Ionawr a 7 Chwefror 2020.

## Y seremoni a'r gwobrwyo

- Dylai ymgeiswyr fod ar gael i fynychu prynhawn y seremoni wobrwyo ar 23 Ebrill yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd
- Bydd y prosiectau sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod sawl lle y bydd eu tîm, grŵp neu sefydliad yn ei gael yn y seremoni wobrwyo
- Bydd tlysau'n cael eu cyflwyno i enillwyr bob categori a thystysgrifau'n cael eu rhoi i bawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol
- Bydd angen i'r timau, grwpiau neu sefydliadau eu hunain ddod i dderbyn y wobwr neu'r dystysgrif
- Bydd angen i dimau, grwpiau neu sefydliadau enwi cynrychiolwyr ymlaen llaw ar gyfer y rhai nad oes modd iddynt fod yn bresennol
- Bydd mynychwyr yn gyfrifol am eu costau teithio a llety eu hunain
- Nid oes unrhyw wobwr ariannol na gwobr gyfatebol
- Os daw'n amlwg bod ymgeisydd wedi torri'r rheolau, cyn neu ar ôl i Wobr gael ei chyflwyno, mae gan y beirniaid hawl i ddiarddel yr ymgeisydd. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid dychwelyd y tllws a'r dystysgrif yn brydlon.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**